CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHOL
YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL PENRHYN-COCH
AC YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL PENLLWYN

4.00 – 5.00 pm, 15 Tachwedd, 2023

Yn bresennol (Hybrid):	Robert Mills (Cadeirydd), Y Cynghorydd Rhodri Davies, Y Cynghorydd Sarah Hughes, Y Cynghorydd Caryl Roberts, Emma Morris, Ceris Gruffudd, Tom Holt, Sian Lloyd Donnelly, Emma Morris, Adrian Price, Catryn Lawrence (Pennaeth)
Clerc:	Wendy Jones (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
1	**YMDDIHEURIADAU:**		
	Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Rhodri Gibson a Bryn Shepherd. **PENDERFYNWYD** derbyn yr ymddiheuriadau uchod.		
2i	**DATGELU BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD / EGWYDDORION YMDDYGIAD:** Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r pwyntiau canlynol:		
	a)	yr angen i ddatgan buddiant dan bob eitem ar yr agenda, neu ymhob trafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol, lle byddai gofyn iddynt adael y cyfarfod. Byddai pob buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael ei gofnodi.	
	b)	bod y materion a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol hyd nes y byddai'r cofnodion yn cael eu cymeradwyo ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus.	
	c)	yr Egwyddorion Ymddygiad yr oedd y Llywodraethwyr wedi eu llofnodi wrth iddynt gael eu henwebu i'r rôl gan nodi eu bod ar gael ar Teams er gwybodaeth.	
		PENDERFYNWYD nodi'r uchod.	
2ii	**PENODI CADEIRYDD:**		
	PENDERFYNWYD ail-benodi Robert Mills yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn 2023/2024. Dywedodd y Cadeirydd na fyddai'n medru parhau yn y rôl yn 2024-2025 ac y		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
	dylid ystyried penodi Llywodraethwr o Ysgol Penllwyn fel Cadeirydd.		
2iv	**PENODI IS-GADEIRYDD:**		
	PENDERFYNWYD ail-benodi Gareth Hoskins yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn 2023/2024. Byddai'r Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yn cysylltu â Gareth Hoskins i'w wahodd ef i barhau yn rôl yr Is-gadeirydd.		Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr
2v	**COFNODION:**		
	Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2023 eu cadarnhau. Byddent yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd a byddai copi yn cael ei anfon at Adran y Llywodraethwyr.		
2vi	**MATERION YN CODI O'R COFNODION:**		
	a)	**Arwydd Ysgol Penllwyn:** Dywedodd y Cynghorydd Rhodri Davies wrth yr aelodau fod trafodaethau wedi'u cynnal rhwng y Cyngor Cymuned a chymdeithas dai Barcud yn 2021 gan fod Barcud yn berchen ar hanner y tir lle byddai'r arwyddion yn cael eu codi. Ar yr adeg honno, rhoddodd y cwmni ganiatâd i osod yr arwyddion. Yn ystod trafodaethau yn ddiweddar, gwnaeth Barcud ofyn i'r ysgol gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y gwaith. Llywodraeth Cymru oedd yn berchen ar hanner arall yr ardal wrth ymyl y gefnffordd. Roedd y Cyngor Cymuned yn aros am ganiatâd oddi wrth Lywodraeth Cymru. Ymddiheurodd y Cynghorydd Rhodri Davies am yr oedi a dywedodd y byddai'r Cyngor Cymuned, fel y cytunwyd arno, yn talu am yr arwyddion. Yn anffodus roedd y disgyblion a oedd wedi dylunio'r arwyddion bellach wedi symud ymlaen i'r ysgol uwchradd. Diolchodd y Cynghorydd Rhodri Davies i Sarah Hughes a Tom Holt am eu gwaith. Dywedodd y Cynghorydd Sarah Hughes ei bod yn bwysig dilyn y prosesau cywir gan sicrhau bod gweledded da ar y gyffordd ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Dywedodd Tom Holt y gallai'r disgyblion a gynlluniodd yr arwyddion gael eu gwahodd i ddychwelyd i'r ysgol i weld yr arwyddion ar ôl iddynt gael eu rhoi yn eu lle. Gwnaeth y Cynghorydd Rhodri Davies gynnig cynorthwyo'r ysgol i wneud cais am ganiatâd cynllunio.	
2vii	**COFNODION Y PWYLLGORAU:**		
	PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y pwyllgorau canlynol a oedd wedi cwrdd ers cyfarfod diwethaf y corff llywodraethol llawn: **Y Pwyllgor Cyllid:**		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	Rhoddodd y Pennaeth adroddiad yn dilyn y cyfarfod gyda Swyddog Cyllid yr Awdurdod Lleol. Nodwyd y pwyntiau canlynol: • Roedd y ffurflen fonitro ariannol wedi'i dosbarthu i'r Aelodau. • Nid oedd angen dileu unrhyw swyddi ar hyn o bryd. Gwnaeth y Cadeirydd ganmol y Pennaeth am ei holl waith caled wrth fantoli'r gyllideb ac osgoi diswyddiadau. Cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r Corff Llywodraethol gysylltu â chyn-ddisgyblion i ofyn am roddion i'r ysgolion. Cafwyd trafodaeth am y ffordd orau ymlaen, gan ystyried pa mor gyfreithlon fyddai'r broses. Byddai'r cais am roddion yn cael ei wneud trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd Tom Holt wrthi'n creu tudalen arall ar gyfer rhoddion i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a byddai ar gael i gynorthwyo â'r gwaith o greu'r dudalen a fyddai'n cael ei defnyddio i ofyn i gyn-ddisgyblion am gyfraniadau. **PENDERFYNWYD** y byddai'r Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yn rhoi manylion cyswllt Adran Gyfreithiol yr Awdurdod Lleol i'r Pennaeth a'r Cadeirydd. **Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, Adeiladau ac Eiddo:** Roedd Rhodri Gibson a Bryn Shepherd wedi cynnal yr Archwiliad Iechyd a Diogelwch. Roedd manylion y gwaith sylweddol oedd angen ei wneud wedi'u rhestru yn adroddiad y Pennaeth. Nodwyd y pwyntiau canlynol: • Roedd rhywfaint o waith wedi cael ei wneud ar barc y plant yn Ysgol Penllwyn. • Roedd clychau newydd wedi'u gosod ar ddrysau'r ddwy ysgol. • Sicrhawyd cyllid gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer ystafell ddosbarth Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd yn Ysgol Penrhyn-coch. Byddai'r ystafell ddosbarth yn cael ei hadeiladu y tu ôl i gegin yr ysgol. Ers hynny roedd yr Awdurdod Lleol wedi bod allan i adolygu capasiti Ysgol Penrhyn-coch. Rhagwelwyd na fyddai digon o gapasiti yn yr ysgol erbyn tymor yr Haf 2024 felly byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ehangu maint yr ystafell ddosbarth newydd er mwyn cynyddu capasiti'r ysgol. **Pwyllgor Staffio a Phersonél:** Cynhaliwyd cyfarfodydd Rheoli Perfformiad ar gyfer yr holl staff. Ni chodwyd unrhyw bryderon.	Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr
2viii	**PWYLLGORAU'R CYRFF LLYWODRAETHOL:**	
	PENDERFYNWYD penodi aelodau'r pwyllgorau fel a ganlyn:	
	Disgyblu a Diswyddo Staff: Cadeirydd, Tom Holt, Emma Morris	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	Apeliadau Disgyblu a Diswyddo Staff: Is-gadeirydd, Rhodri Davies, Adrian Price	
	Disgyblu a Gwahardd Disgyblion: Cadeirydd, Tom Holt, Bethan Evans	
	Dethol Pennaeth a Dirprwy Bennaeth: Cadeirydd, Is-gadeirydd, Sarah Hughes, Rhodri Gibson, Athro-lywodraethwr	
	Rheoli Perfformiad Penaethiaid a Galluogrwydd Penaethiaid: Cadeirydd, yIs-gadeirydd, Ymgynghorydd Cefnogi'r Ysgol **Apeliadau Rheoli Perfformiad Penaethiaid a Galluogrwydd Penaethiaid**: Sarah Hughes, Caryl Roberts	
	Adolygu Tâl: Robert Mills, Adrian Price, Emma Morris **Apeliadau Adolygu Tâl**: Rhodri Gibson, Sarah Hughes, Gareth Hoskins	
	Cwynion: Cadeirydd, Cyng Caryl Roberts, Cyng Sarah Hughes	
	Cwynion Cyflogaeth Staff: Cadeirydd, Tom Holt, Cyng Caryl Roberts **Apeliadau Cwynion Cyflogaeth Staff**: Is-gadeirydd, Rhodri Davies, Adrian Price	
	Cyllid: Pennaeth, Cadeirydd, Rhodri Gibson, Gareth Hoskins	
	Safonau, Perfformiad a'r Cwricwlwm: Pennaeth, Bryn Shepherd, Gareth Hoskins, Ceris Gruffudd	
	Eiddo, Adeiladau, Iechyd a Diogelwch: Pennaeth, Rhodri Gibson, Bethan Evans, Bryn Shepherd	
	Staffio a Phersonél / Apeliadau Staffio a Phersonél: Pennaeth a'r Cadeirydd i benodi Pwyllgor priodol pan fo angen.	
	Llesiant: Pennaeth, Bryn Shepherd, Catherine Jones, Sarah Hughes	
	Ymgysylltu â'r Gymuned:	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
	Pennaeth, Ceris Gruffudd, dau aelod ar rota		
2ix	**CYFRIFOLDEBAU'R LLYWODRAETHWYR:**		
	PENDERFYNWYD penodi'r llywodraethwyr canlynol â chyfrifoldeb dros y meysydd canlynol:		
	Amddiffyn Plant: Robert Mills		
	Anghenion Dysgu Ychwanegol: Rhodri Davies		
	Rhianta Corfforaethol: Robert Mills		
	E-ddiogelwch: Robert Mills		
	Anghenion Dysgu Ychwanegol: Y Cynghorydd Rhodri Davies		
	Cytundeb Llwyth Gwaith: Bethan Evans		
	Hyfforddiant / Ymsefydlu / Y Fforwm: Catherine Jones		
	Chwythu'r Chwiban: Catherine Jones		
	Presenoldeb: Bethan Evans		
	Siarter y Gymraeg: Ceris Gruffudd		
	Eiriolydd dros Gynorthwywyr Addysgu: I'w benodi		
	Hyrwyddwr Amrywiaeth: I'w benodi		
	Ieithoedd, Llythrennedd, Cyfathrebu: Ceris Gruffudd		
	Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Rhodri Gibson, Tom Holt		
	Y Dyniaethau: Gareth Hoskins		
	Y Celfyddydau Mynegiannol: Sarah Hughes		
	Mathemateg a Rhifedd: Robert Mills, Tom Holt		
	Iechyd a Llesiant: Gareth Hoskins		
	Llais y Disgybl: I'w benodi		
2x	**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I'R RHIENI 2022-2023:**		
	Bu i'r Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr atgoffa'r Aelodau o'r pwyntiau canlynol:		
	a)	bod yn rhaid i'r Cadeirydd baratoi adroddiad blynyddol a bod templed o adroddiad ar gael ar y wefan Cefnogi Llywodraethwyr;	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
	b)	nad oedd rhaid cynnal cyfarfod â'r Rhieni. Fodd bynnag, rhaid hysbysu'r Rhieni ynghylch eu hawl i wneud cais i'r Corff Llywodraethol roi sylw i fater yn un o'i gyfarfodydd gan ddefnyddio'r pwerau yn Adran 94.	
	c)	**PENDERFYNWYD** nodi y byddai'r adroddiad ar gael i'r Aelodau er gwybodaeth cyn y byddai'n cael ei ddosbarthu i'r rhieni.	
3i	**ADRODDIAD Y PENNAETH:**		
	Roedd copi o adroddiad y Pennaeth eisoes wedi bod ar gael i'r aelodau. Cafwyd trafodaeth am y materion canlynol:		
	a)	**Cynllun Datblygu'r Ysgol:** Roedd Cynllun Datblygu'r Ysgol wedi'i rannu â'r Aelodau. Nodwyd y pwyntiau canlynol: • Y flaenoriaeth gyntaf ar gyfer 2023-2024 oedd gwella effaith 'llais y disgybl' yn yr ysgolion. Gwnaed newidiadau i'r Cynghorau Ysgol er mwyn creu Seneddau yn y ddwy ysgol. Roedd y ddwy Senedd yn cwrdd unwaith bob hanner tymor. • Roedd rhai disgyblion wedi rhoi cyflwyniadau i ddisgyblion eraill yn ystod y Gwasanaeth. • Roedd aelodau'r Seneddau wedi dewis diwrnod i ddathlu hawliau plant. • Roeddent hefyd wedi bod yn rhagweithiol wrth greu a rhannu holiadur ar gyfer pob disgybl. Byddai'r ymatebion yn cael eu dadansoddi maes o law. • Y gobaith oedd datblygu rhagor o gyfleoedd fel y gallai'r disgyblion siarad â'u rhieni am eu gwaith. Roedd hyn wedi gweithio'n dda iawn yn ystod y nosweithiau rhieni. • Roedd y disgyblion hefyd yn datblygu eu sgiliau wrth wneud dewisiadau am eu gwaith. • Roedd yr ail flaenoriaeth yn un a oedd yn rhan o flaenoriaethau 2022-2023 ond y tro hwn, byddai'r staff yn canolbwyntio mwy ar osod disgwyliadau uwch ar ddisgyblion ar draws y grwpiau oedran. Y nod oedd sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cyrraedd eu llawn botensial, waeth beth fo'u cefndir. • Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant am bob agwedd ar y blaenoriaethau. • Roedd monitro rheolaidd yn digwydd ac roedd hyn yn cynnwys craffu ar lyfrau a gwaith arsylwi yn yr ystafell ddosbarth. • Roedd y Pennaeth a Bryn Shepherd wedi mynychu hyfforddiant ar goetsio a mentora yn flaenorol ac roedd y sgiliau a ddysgwyd ganddynt yn cael eu rhoi ar waith. • Roedd Prifysgol Bryste wedi dewis yr ysgolion i weithio ar ddull o addysgu a oedd yn seiliedig ar ymholiadau. Roedd Bethan Evans	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
		ac Emma Parr-Davies yn gweithio ar y prosiect hwn gyda'r disgyblion iau. • Roedd y Pennaeth a Bryn Shepherd yn gweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth ar brosiect ymchwil. • Roedd y ddau brosiect gyda'r Prifysgolion yn darparu cyllid ychwanegol i'r ysgol. Roedd y prosiectau hefyd yn darparu cyfleoedd o ran datblygiad proffesiynol i'r staff dan sylw. • Yn ddiweddar, roedd yr ysgolion wedi croesawu staff o ddeuddeg ysgol yng Ngheredigion er mwyn rhannu arferion da. Bu'r diwrnod yn llwyddiannus iawn a chafwyd adborth cadarnhaol gan y rhai a fu'n bresennol. Roedd yr Ysgol hefyd wedi derbyn £2,000 am gynnal y digwyddiad. Roedd y staff wedi bod yn rhagweithiol iawn ac roedd y diwrnod wedi rhoi cyfleoedd pellach o ran datblygiad proffesiynol.	
	b)	**Anghenion Dysgu Ychwanegol**: Roedd Rhian Cory, y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, wedi parhau i ddatblygu dull gweithredu i'r ysgol gyfan o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol. Byddai dau ddisgybl yn cael eu trosglwyddo i'r system ADY newydd. Nododd y Pennaeth y nifer uchel o geisiadau gan rieni am atgyfeiriadau a chymorth ar gyfer atgyfeiriadau yn dilyn diagnosis o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) a chyflyrau tebyg. Roedd y ceisiadau hyn yn golygu gwaith papur sylweddol ac roeddent yn cymryd llawer o amser. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal gydag Adran ADY yr Awdurdod Lleol ac ystyriwyd mai dyma oedd y duedd gyffredinol o ran y mater hwn. Roedd yn bosibl na fyddai cefnogaeth yn cael ei rhoi i ddisgyblion a fyddai'n cael diagnosis. Roedd y Pennaeth wedi gofyn am fideo oddi wrth yr Adran ADY a fyddai'n rhoi sylw i ADY o fewn y system addysg. **Disgyblion prydau ysgol am ddim** – Roedd adroddiadau blaenorol wedi dangos nad oedd unrhyw ddisgyblion prydau ysgol am ddim yn Ysgol Penllwyn ond erbyn hyn roedd 6 disgybl prydau ysgol am ddim ar y gofrestr. Roedd yr arferion da a rannwyd ag ysgolion Ceredigion yn ystod y digwyddiad diweddar yn dangos y newid cadarnhaol a fu ym mhresenoldeb y disgyblion difreintiedig a'u hagwedd.	
	c)	**Cynnal a Chadw Adeiladau / Iechyd a Diogelwch:** Roedd y boeler dŵr yn Ysgol Penrhyn-coch yn aml yn broblem yn dilyn gwyliau'r ysgol. Roedd y Pennaeth wedi cael gwybod sut oedd ailddechrau'r boeler pe byddai angen gwneud hynny.	
	d)	**Cysylltiadau â'r Rhieni a'r Gymuned:** Roedd y disgyblion wedi cael cyfoeth o gyfleoedd yn ystod y tymor. Roedd y manylion i'w gweld yn yr adroddiad.	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
	e)	**Llwyddiannau a gweithgareddau'r disgyblion:** Roedd y manylion ar gael ar *Class Dojo* a'r cyfryngau cymdeithasol.	
	f)	**Cwestiynau a sylwadau:** **Gofynnodd un o'r aelodau a oedd y materion a godwyd yn ystod cyfarfod tymor yr haf ynglŷn â chyfathrebu â rhai o'r rhieni wedi'u datrys.** Roedd Cytundeb rhwng y Cartref a'r Ysgol wedi'i lunio a'i ddefnyddio mewn rhai achosion. Roedd y berthynas â'r rhieni hynny wedi gwella. **Dywedodd un o'r aelodau ei fod yn falch o nodi bod yr ysgolion wedi cael eu dewis i rannu arfer da.** Dywedodd Bethan Evans, y Dirprwy Bennaeth, fod y disgyblion a'r staff wedi ymateb yn dda i'r ymwelwyr a'i bod yn destun balchder y gallai'r Pennaeth ddibynnu ar y staff a'r disgyblion i gynnal y digwyddiad. Dywedodd y Pennaeth fod y disgyblion yn awyddus i ddysgu a thrafod eu gwaith a bod y staff mor gefnogol ac yn awyddus i rannu arferion da.	
3ii	**DEILIAID ALLWEDDI'R YSGOL:**		
	Roedd rhestr o ddeiliaid yr allweddi wedi ei darparu i'r Pennaeth yn flaenorol. **PENDERFYNWYD** nodi bod y manylion wedi'u hadolygu.		
4i	**HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:**		
	Nid oedd unrhyw faterion i'w codi o ran hyfforddiant Llywodraethwyr. Byddai cyfarfod nesaf Fforwm Llywodraethwyr Ceredigion yn cael ei gynnal ym mis Chwefror 2024. Dywedodd y Cadeirydd mai profiad gwerthfawr oedd y cyfle i gwrdd â Chadeiryddion Cyrff Llywodraethol eraill yn ystod cyfarfod cyllid yr Awdurdod Lleol yn ddiweddar.		
5i	**POLISÏAU – POLISÏAU STATUDOL (yn unol ag amserlen yr Awdurdod Lleol):**		
	Gofynnodd y Pennaeth i un o'r llywodraethwyr adolygu'r Polisi Codi Tâl er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion disgyblion RADY (Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Dan Anfantais). Byddai'r Cadeirydd yn adolygu'r polisi maes o law. **Gofynnodd un o'r aelodau a oedd y rhieni'n parhau i wneud cais am Brydau Ysgol am Ddim gan fod pob disgybl bellach yn derbyn prydau ysgol am ddim.** Roedd y rhieni yn cael eu hannog i barhau i wneud cais er mwyn cael buddion / budd-daliadau ehangach. Roedd yr Awdurdod Lleol yn darparu rhestr wedi'i diweddaru bob mis. Roedd yr Ysgolion wedi gosod eu diffiniad eu hunain o amddifadedd er mwyn darparu hyblygrwydd i staff wrth ddarparu	Cadeirydd

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	cymorth.	
5ii	**POLISI DERBYN 2024-2025:**	
	Roedd copi o'r polisi wedi cael ei lanlwytho i Teams er gwybodaeth. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r polisi. Cadarnhau mai 113 yw Capasiti Ysgol Penrhyn-coch Cadarnhau mai 16 yw 'nifer derbyn' Ysgol Penrhyn-coch Cadarnhau mai 54 yw capasiti Ysgol Penllwyn (nid yw hyn yn cynnwys y caban sydd wedi'i osod ar brydles i'r feithrinfa) Cadarnhau mai 7 yw 'nifer derbyn' Ysgol Penllwyn Roedd y ffigurau wedi'u hadolygu a'u diwygio'n ddiweddar gan aelod o staff yr Awdurdod Lleol. Gwnaeth y Pennaeth annog y Llywodraethwyr i hyrwyddo'r ysgol ar bob cyfle. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**: • y byddai'r aelodau yn cydweithio i sicrhau bod yr adroddiadau yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd. • y byddai'r Cadeirydd yn sefydlu grŵp WhatsApp i gyfathrebu â'r aelodau.	Pob Llywodraethwr
5iii	**Y POLISI ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB :**	
	Roedd copi o'r polisi wedi'i lanlwytho i Teams er gwybodaeth. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Polisi.	
6	**UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD O FLAEN LLAW:**	
	a) **Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned:** **PENDERFYNWYD**: • nodi nad oedd dim cysylltiad wedi bod rhwng y Corff Llywodraethol a'r Cynghorydd Ceri Evans ar ôl iddi gael ei phenodi yn Gynrychiolydd y Cyngor Cymuned. • Byddai'r Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yn cysylltu â Chlerc y Cyngor Cymuned i gael eglurhad ynghylch y sefyllfa.	Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr
7	**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**	
	PENDERFYNWYD nodi y byddai cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol Llawn yn cael ei gynnal ar 6 Chwefror 2024.	

WJ

Cadeirydd: ……. Dyddiad: …….